Localgiving

# CANLLAW I APELIADAU CYLLIDO TORFOL

## PAM CODI ARIAN AR-LEIN?

Bellach, mae £2.4 biliwn yn cael ei roi ar-lein, chwarter holl roddion y DU. Mae'r rhoddion ar gyfartaledd a gaiff eu rhoi ar-lein ddwbl y rhoddion a roddir all-lein.

## BETH YW APÊL CYLLIDO TORFOL?

Ymgyrch dros dro sy'n canolbwyntio ar fater penodol, a hynny ar frys. Mae'n codi arian yn erbyn targed penodol, dros gyfnod penodol, ar gyfer angen penodol (presennol neu newydd).

## PAM CYLLIDO TORFOL?

Yn 2019, roedd cyllid torfol yn cynrychioli £68.7m o roddion y DU. Does dim digon o elusennau'n manteisio ar yr hyder y mae'n ei ennyn a'r tryloywder o ran ble mae rhoddion yn mynd. Bydd 27% o roddwyr yn mynd ymlaen i wirfoddoli i'r elusen a bydd 90% yn ei hyrwyddo.

## 1 TARGED CODI ARIAN

Eglurwch angen, gwaith a chanlyniad cefnogaeth y rhoddwr yn glir. Gosodwch darged rhwng £500 a £5,000 ar gyfer apêl gyntaf, er mwyn annog rhoddwyr lefel is.

## 2 CYNLLUNIO

Paratowch staff/gwirfoddolwyr i gymryd rhan. Gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod pryd i rannu cynnwys ar draws eu rhwydweithiau. Ystyriwch lansio ar ddyddiad pwysig er mwyn cynnal y momentwm a gwnewch fideo sy'n crynhoi'r apêl. Cynhaliwch yr apêl am dair wythnos i dri mis i gadw'r ymdeimlad o argyfwng.

## 3 CYCHWYN CRYF

Unwaith y bydd ymgyrch cyllido torfol yn cyrraedd 30% o'i tharged, mae'n debygol o lwyddo ac annog rhoddwyr newydd. Symudwch oddi ar £0 yn gyflym drwy ychwanegu rhoddion all-lein (arian parod/grantiau) at y cyfanswm. Gofynnwch am roddion gan eich cefnogwyr agos cyn ei lansio i'r cyhoedd. Gwnewch iddynt deimlo fel y cylch dethol a all eich helpu i godi o £0 cyn y lansiad cyhoeddus, er mwyn annog rhoddwyr newydd.

## 4 YN Y CYFAMSER

Cofiwch ddiolch i'r rhoddwyr, eu harwain i wneud mwy a gofyn iddynt bostio ar y cyfryngau cymdeithasol. Gall cyllido torfol helpu i sicrhau grantiau, arian cyfatebol neu nawdd corfforaethol. Gallai tudalennau codi arian gyfrannu at y targed hefyd. Dilynwch y canllaw ar ennyn diddordeb.

## 5 CODI ARIAN YN Y DYFODOL

Cynlluniwch rhwng un a phedair ymgyrch y flwyddyn gan ddibynnu ar yr angen, yr amser a'r hyn sy'n briodol. Mae hyn yn amrywio'r 'gofyn' o ran codi arian, yn canolbwyntio ymdrechion ac yn caniatáu dysgu.